Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

10 Gorffennaf 2018

Annwyl Lynne a John,

**Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

Yn dilyn fy llythyr at Gadeiryddion y Pwyllgorau ar 21 Mehefin 2018, rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth ichi am rai o'r meysydd y gallech eu hystyried o bosibl fel rhan o'ch gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft.

Yn ystod ein cyfarfod i randdeiliaid yn Abertawe, yn ymwneud â chraffu cyn y gyllideb, gofynnwyd inni ymgysylltu â phobl ifanc ddifreintiedig ac agored i niwed yn ystod proses y gyllideb er mwyn sicrhau eu bod yn cael cynrychioli'n ddigonol a rhag i grwpiau o'r fath gael eu niweidio, neu eu hesgeuluso yn y gyllideb. Mae cynrychiolydd o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn awyddus i roi cymorth i Bwyllgorau'r Cynulliad wrth iddynt graffu ar yr Asesiadau Effaith yn y gyllideb ddrafft.

Gan fod y meysydd hyn yn rhan o gylch gorchwyl eich Pwyllgorau, byddwn yn falch o wybod a ydych yn awyddus i archwilio hyn ymhellach. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn awyddus i fod yn rhan o'r gwaith hwn a byddai'n croesawu'r cyfle i ymuno ag unrhyw sesiwn pe bai hynny'n bosibl.

Cofion cynnes,

Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565